**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS/MS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Mai 2020

Annwyl Llywydd,

**Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Datgymhwyso ac Addasiadau Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 ("y Gorchymyn")**

Yn unol ag adran 11A(4) Deddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, rydw i'n eich hysbysu chi bod yr Offeryn Statudol hwn wedi dod i rym lai na 21 diwrnod o'r diwrnod cyflwyno gerbron. Mae'r memorandwm esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn wedi'i atodi er gwybodaeth.

Mae'r cyfyngiadau ar deithio a'r mesurau cau adeiladau oedd yn angenrheidiol er mwyn arafu COVID-19 wedi atal rhai ceisiadau cynllunio rhag cael eu cyflwyno oherwydd bod dim modd cydymffurfio â'r gweithdrefnau cyn ymgeisio. Bwriad y gorchymyn yw addasu gweithdrefnau cynllunio dros dro ar gyfer y cyfnod sy'n cychwyn ar 19 Mai ac yn gorffen ar 18 Medi (y cyfnod dros dro) er mwyn cael gwared â'r rhwystrau hyn a galluogi ceisiadau cynllunio ar gyfer y datblygiadau hyn i gael eu cyflwyno yn dilyn yr addasiadau.

Mae'r Gorchymyn yn addasu'r gofynion ymgynghori cyn ymgeisio yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ("DMPWO") drwy ddileu'r gofyniad sy'n nodi bod rhaid i wybodaeth fod ar gael mewn lleoliad lleol yn ystod y cyfnod dros dro. Yn hytrach, bydd rhaid i'r holl wybodaeth fod ar gael ar-lein a bydd pobl heb fynediad i'r rhyngrwyd yn gallu gwneud cais am gopïau caled o'r wybodaeth.

Mae'r gorchymyn hefyd yn addasu'r DMPWO yn ystod y cyfnod dros dro, drwy ymestyn y cyfnod sydd gan gynghorau cymuned i gyflwyno sylwadau o 14 i 21 diwrnod, er mwyn ystyried anawsterau o ran trefnu a chynnal cyfarfodydd rheolaidd o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19.

Mae'r gofyniad sy'n nodi bod rhaid cyflwyno copi caled o Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol gyda Gweinidogion Cymru a'r awdurdod cynllunio lleol yng Ngorchymyn

Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 wedi'i ddatgymhwyso ar gyfer y cyfnod dros dro.  Bwriad hyn yw goresgyn y cyfyngiadau ar deithio nad yw'n hanfodol a'r mesurau i gau adeiladau cyhoeddus nad ydynt yn hanfodol.

Mae gofyn i'r Gorchymyn ddod i rym cyn gynted â phosibl er mwyn i'r addasiadau i weithdrefnau cynllunio allu lliniaru effaith cyfyngiadau COVID-19 ar deithio ac agor adeiladau, gan gyfrannu at system gynllunio weithredol.  Bydd yn galluogi caniatâd cynllunio i gael ei gyflwyno, sy'n golygu (os yw'n cael caniatâd) y gallai'r sector adeiladu roi'r caniatâd hwnnw ar waith cyn gynted ag y bo'r cyfyngiadau'n cael eu llacio.

Bydd peidio â dod â'r Gorchymyn i rym ar unwaith yn golygu bod mwy a mwy o geisiadau cynllunio sy'n aros i gael eu cyflwyno yn cronni. Gallai hyn gael effaith ar y sector adeiladu a'r economi, mewn cyfnod lle mae'n bwysig gwyrdroi colledion ariannol yn gyflym er mwyn lleihau'r effaith economaidd a'r difrod cymdeithasol tymor hir sy'n cael ei achosi.  Credir ei bod yn angenrheidiol peidio â glynu wrth y confensiwn 21 diwrnod, a bod modd cyfiawnhau hyn yn yr achos hwn.

Oherwydd bod angen y Gorchymyn ar unwaith ac nad yw wedi bod yn destun ymgynghoriad, mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi ac mae hwn wedi cael ei roi gerbron y Swyddfa Gyflwyno ynghyd â'r Rheoliadau.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad; Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau a'r Siambrau; a Julian Lake, Pennaeth y Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Y Gweinidog Cyllid a Threfnydd